
IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 20.03.19

Yn bresennol: **Cynghorwyr :** Peter Read (Cadeirydd), Steve Collings ac Edgar Wyn Owen

Swyddogion: Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones (Aelod Lleol)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - Rheilffordd Fynydd yr Wyddfa – Caffi Gorsaf Llanberis, Siop Anrhegion a'r Trading Post

Ar ran yr eiddo: Mr Chris Jones

a) Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Rheilffordd Fynydd yr Wyddfa

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a'r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymhell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod 3 llythyr wedi ei derbyn yn gwrthwynebu'r cais oherwydd pryderon y byddai'r gweithgareddau trwyddedig arfaethedig yn tanseilio dau o'r amcanion trwyddedu - sicrhau diogelwch y cyhoedd a diogelu rhag niwsans cyhoeddus. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau, amlygwyd bod cyfarfod cyflafareddu wedi ei gynnal ar yr 20fed o Chwefror 2019 er mwyn i'r gwrthwynebwyr drafod eu pryderon gyda'r ymgeisydd. O ganlyniad, cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawd sylweddol gan gynnig newidiadau a derbyn amodau newydd ar y cais. Adroddwyd bod y gwrthwynebwyr bellach wedi derbyn y cais a bod y cais yn cael ei gyflwyno i'r Is Bwyllgor i gadarnhau'r newidiadau hynny yn ffurfiol.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahodd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau

- Gwahodd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn unol â'r amodau diwygiedig

1. Cytunwyd i gyfyngu oriau gwerthiant alcohol yn y Trading Post i 09:00 tan 18:00
2. Cytunwyd i werthu poteli cwrw a gwirodydd 'arbenigol' yn unig yn y Trading Post
3. Cytunwyd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo Trading Post yn unig.
4. Dim cerddoriaeth wedi ei recordio i'w chwarae o'r Trading Post nac y Maes Parcio ar unrhyw adeg.
5. Oriau gweithgareddau trwyddedig ac amodau arfaethedig i aros yr un fath a'r cais gwreiddiol ar gyfer Caffi Gorsaf Llanberis a'r Siop Anrhegion

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partiön â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu, yn ogystal â sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd yn y gwrandawriad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

- i. Atal trosedd ac anhrefn
- ii. Atal niwsans cyhoeddus
- iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
- iv. Gwarchod plant rhag niwed

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r 3 llythyr a dderbyniwyd gan drigolion cyfagos yn mynegi pryderon y byddai'r cais ar ei ffurf wreiddiol yn niweidio'r amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a sicrhau diogelwch cyhoeddus. Yn gryno, codwyd pryderon y byddai caniatáu'r cais gwreiddiol yn golygu bod y Trading Post yn benodol,

- yn agos at y briffordd, ac felly yn denu mwy o brysurdeb, a fyddai'n arwain at broblem diogelwch cyhoeddus;
- yn agos at eiddo preswyl cyfagos, ac felly byddai chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio yn arwain at darfu sŵn, a fyddai yn ei dro yn achosi problem niwsans cyhoeddus.

Fodd bynnag, yn dilyn y cyfarfod cyflafareddu, roedd yr ymgeisydd wedi cytuno diwygio'r cais er mwyn lliniaru'r risg o unrhyw broblemau diogelwch cyhoeddus neu niwsans cyhoeddus a fyddai'n codi mewn perthynas â'r Trading Post.

Nid oedd gofyn i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ar sylwedd sylwadau'r trigolion cyfagos, gan nad oedd angen hynny ar yr achlysur yma oherwydd canlyniad y cyfarfod cyflafareddu. Derbyniwyd, fodd bynnag, y byddai caniatáu'r drwydded yn unol â'r cais gwreiddiol wedi gallu arwain at fwy o brysurdeb a sŵn o gwmpas y Trading Post. Derbyniwyd hefyd mewn egwyddor y gallai'r materion hyn fod wedi arwain at broblemau o ddiogelwch cyhoeddus a niwsans cyhoeddus.

O dan yr amgylchiadau ac ar y sail nad oedd y gwrthwynebiadau yn parhau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais diwygiedig yn gydnaws a'r amcanion trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00pm a daeth i ben am 12:20pm